

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	28 Chwefror 2017
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	GWENLLIAN MAIR WILLIAMS SWYDDOG DATBLYGU IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

**CWYNION YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH
(Derbynnir gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith)**

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Nid oes cwynion caeedig i'w hadrodd ers y cyfarfod diwethaf		

CWYNION UNIONGYRCHOL AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
26/09/2016	Cwyn fod hysbyseb gan Gyngor Gwynedd a Chymunedau yn Gyntaf yn hyrwyddo: "Training Registration Day For Maesgeirchen Residents" wedi ymddangos yn uniaith Saesneg yn y Daily Post	Cafwyd esboniad gan y gwasanaeth yn nodi fod testun gwreiddiol yr hysbyseb wedi ei ddarparu'n ddwyieithog i'r Daily Post gan aelod o dîm Cymunedau'n Gyntaf. Aeth y Daily Post ati i ddylunio a gosod yr hysbyseb. Pan yrrwyd fersiwn proflen terfynol yn ôl i'r aelod o staff roedd yn uniaith Saesneg, ond yn anffodus, oherwydd diffyg amser, methodd yr aelod o staff sylwi nad oedd yna fersiwn Gymraeg yn atodol i'r neges a chymeradwywyd y proflen. Pan sylwedolodd y Rheolwr fod yr hysbyseb yn uniaith Saesneg yn y papur, gofynnwyd i'r aelod o staff gysylltu yn ôl gyda'r Daily Post. Cytunwyd bod yn fai ar y ddwy ochr i wahanol raddau, a chytunwyd i symud ymlaen trwy ddarparu hysbyseb dwyieithog o'r un faith yn y papur yr wythnos ganlynol.
13/10/16	CI1607 – Cwyn am lythyrau uniaith Saesneg wedi eu hanfon at landlord ynghylch budd-dal tai un o'i denantiaid.	Cafwyd ymddiheuriad ac ymateb gan y gwasanaeth yn nodi bod y llythyr wedi ei anfon yn Saesneg yn unig gan fod y tenant dan sylw wedi nodi mai Saesneg oedd ei ddewis iaith. O ganlyniad, roedd unrhyw ohebiaeth oedd yn cael ei anfon yn ymwneud a'r budd-dal hwnnw yn cael ei anfon yn iaith ddewisol yr unigolyn dan sylw. Fodd bynnag, nododd y gwasanaeth y byddant yn edrych ar y system gyfrifiadurol er mwyn gweld a ellir gwahaniaethu rhwng dewis iaith y derbynnydd a'r landlord yn y dyfodol. Yn y tymor byr, roeddynt yn sicrhau y byddai pob gohebiaeth at yr achwynydd dan sylw yn cael ei anfon yn

		Gymraeg o hyn allan.
9/11/16	<p>CI1608 – Cwyn gan Gyngor Tref Pwllheli bod rhai arwyddion stryd yn y dref yn parhau i fod yn ddwyieithog, er gwaethaf cytundeb gyda'r Cyngor i enwi strydoedd yn uniaith Gymraeg. Cyfeiriwyd at hen ohebiaeth efo'r Swyddog Iaith, a chyfeiriad penodol at Bolisi Enwau Strydoedd oedd i fod i gael ei ddatblygu gan adran Ymgynghoriaeth.</p>	<p>Gwnaed ychydig o waith ymchwil i geisio canfod beth oedd y cytundeb gwreiddiol gyda'r Cyngor ynghylch enwau strydoedd y dref. Ni bu posibil canfod copi, felly mae ansicrwydd ynglŷn â union natur y cytundeb, ond derbyniwyd gwybodaeth am gefndir y polisi enwau strydoedd arfaethedig.</p> <p>Anfonwyd ymateb yn esbonio bod y Polisi enwau strydoedd yn dal i fodoli ar ffurf drafft ac y bydd yn mynd gerbron y Pwyllgor Iaith yn 2017. Bydd ymateb pellach wedi hynny.</p>